# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Abercaseg

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Abercaseg yn darparu cwricwlwm ysgogol sy'n blaenoriaethu datblygiad disgyblion fel dinasyddion balch, cyfrifol ac uchelgeisiol. Maent yn cynnig profiadau dysgu ystyrlon sy'n meithrin cysylltiad cryf rhwng yr ysgol, eu cymuned a'r iaith Gymraeg. Mae athrawon yn cynllunio sesiynau sy'n darparu her yn nysgu'r disgyblion ac yn adeiladu ar eu diddordebau'n fedrus. Maent yn defnyddio'r amgylchedd lleol yn greadigol i ehangu gorwelion disgyblion ac i ddwysáu eu hymwybyddiaeth o'u hunaniaeth. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau cymunedol ac yn dangos balchder amlwg wrth iddynt gyfrannu'n frwd at fywyd y pentref.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Maent yn datblygu fel siaradwyr brwd a darllenwyr hyderus sy'n cyfathrebu'n ddeallus a chyd-drafod eu dysgu yn effeithiol. Mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu'n fedrus, gyda'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n  aeddfed at bwrpasau gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemateg a digidol yn fwriadus mewn gweithgareddau diddorol. Darperir cyfleoedd pwrpasol iddynt ddatblygu eu medrau meddwl yn annibynnol mewn gweithgareddau sy'n eu hannog i ddatrys problemau a goresgyn anawsterau yn eu dysgu.

Ar y cyfan, mae athrawon yn defnyddio dulliau addysgu effeithiol sy'n annog disgyblion i gydweithio'n llwyddiannus. Maent yn holi'n fanwl ac herio'r disgyblion i feddwl yn ddyfnach am eu dysgu. Mae'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i gefnogaeth ac yn dangos agweddau cadarn at eu dysgu. Er hyn, ar adegau, mae staff yn gor-arwain dysgu'r disgyblion sy'n lleihau'r cyfleoedd iddynt ddysgu'n annibynnol.

Mae staff yn hyrwyddo lles disgyblion yn hynod effeithiol. Maent yn magu perthynas waith gadarnhaol â'r disgyblion sy'n cefnogi eu lles a'u dysgu yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at gefnogi'r disgyblion i ymddwyn yn dda gan feithrin eu hagweddau iach at ddysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi a darparu her a chefnogaeth berthnasol i arweinwyr mewn modd adeiladol. Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella yr ysgol yn gadarn, ond nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod y gweithdrefnau hunanwerthuso mor drwyadl ar draws y ffederasiwn cyfan.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

A2 Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella ar draws y ffederasiwn

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/08/2025